| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 9fed o Chwefror 2023 |
| **TEITL YR EITEM** | Adroddiadau Archwilio Cymru |
| **AMCAN** | Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Archwilio Cymru |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor/Alan Hughes, Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru |

**1. CEFNDIR**

1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt. Er mwyn hwyluso'r gwaith mae Archwilio Cymru yn paratoi diweddariad chwarterol ar waith y cyrff adolygu a cyflwynwyd copi o'r ddogfen hon ar gyfer Chwarter 2 i'r Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar y 17eg o Dachwedd 2022. Rydym yn disgwyl derbyn diweddariad Chwarter 3 yn ystod yr wythnosau nesaf.

1.3. Cyflwynwyd adroddiad ar astudiaethau cyfredol Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r cynnydd sydd wedi ei wneud gan y Cyngor mewn ymateb i gynigion neu argymhellion i gyfarfod y pwyllgor hwn ar y 30ain o Fehefin 2022. Bydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor ar y 9fed o Chwefror 2023.

1.4. Yn y cyfamser mae copi o adroddiadau **'Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021'** a '**Diweddariad ar Gynnydd Datgarboneiddio'** wedi eu cynnwys fel **Atodiadau 1 a 3.** Yn ogystal, mae dogfennau ymateb rheolwyr, sy'n amlinellu'r hyn yr ydym fel Cyngor yn bwriadu ei wneud i ymateb i'r argymhellion o fewn yr adroddiadau, wedi eu paratoi ac wedi eu cynnwys fel **Atodiadau 2 a 4**. Bydd y swyddogion perthnasol yn mynychu'r cyfarfod i osod cyd-destun ac ymateb i unrhyw gwestiynau os oes angen**.**